

## Tasg 1

## Y parti

1. Atebwch y cwestiynau yma:

a. Beth mae Ben yn gwisgo?

- a. Dillad arian sgleiniog
- b. Dillad gofod aur
- c. Dillad du gyda llun y planedau


b. Pwy sy'n cael pen-blwydd?

- a. Tad Ben
- b. Mam Ben
- c. Brawd Ben


c. Beth maen nhw'n mynd i fwyta?

- a. Cacen goch
- b. Cacen ddu
- c. Cacen arian


ch. Beth arall maen nhw'n mynd i fwyta?

- a. Pizza fel y Lleuad
- b. Pasteiod fel y Lleuad
- c. Cacen fel y Lleuad


d. Beth fyddan nhw **ddim** yn gwneud?

- a. Dawnsio
- b. Chwarae gemau
- c. Bwyta


di. Pam dydy Cerys ddim yn mynd i'r parti?

- a. Dydy hi ddim yn hoffi'r bwyd.
- b. Mae hi'n mynd i barti arall.
- c. Does ganddi ddim dillad gofod / Does dim dillad gofod gyda hi.


2. Beth ydych chi'n feddwl o'r syniad o gael parti gofod?  
Rhowch resymau.

Ysgrifennwch nodiadau – pwyntiau bwled.

Trafodwch eich syniadau chi mewn grŵp.

--

### Geirfa

y Lleuad	the Moon	nodiadau	notes
----------	----------	----------	-------

3. Mae'r grŵp yn cael £50.00 i drefnu parti ar thema arbennig.

Trafodwch:

- pa thema
- y dillad
- y bwyd
- ble fydd y parti
- beth fydd yn digwydd
- unrhyw wybodaeth arall

Ar beth rydych chi'n mynd i wario'r arian?

Gwnewch restr.

Peidiwch gwario mwy na £50.00.

Faint fydd y parti'n costio? Faint o arian fydd ar ôl ar y diwedd?



### Geirfa

thema	theme	ar ôl	left over
gwario	(to) spend	ar y diwedd	at the end